






Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y Gell Cyngor Technegol

Crynodeb o'r cyngor

31 Gorffennaf 2020



Y Gell Cyngor Technegol: Crynodeb

31 Gorffennaf 2020


Crynodeb o'r Prif Bwyntiau

- Mae'r amcangyfrif o'r gyfradd twf presennol yng Nghymru yn awgrymu bod heintiau ar hyn o bryd yn lleihau rhwng 1% ac 8% y dydd.

Cyfradd twf

- Mae pum model i'w cael ar hyn o bryd sy'n amcangyfrif y cyfraddau twf yng Nghymru. Caiff canlyniadau'r modelau hyn eu cyfuno gan ddefnyddio pwysoliadau cyfartal er mwyn darparu'r amcangyfrif canolog cyffredinol o'r gyfradd twf. Mae ffigur 1 yn dangos yr amcangyfrifon o'r cyfraddau twf diweddaraf ar gyfer Cymru, gan gynnwys y model cyfun. Mae'r gyfradd twf presennol rhwng -0.08 a -0.01% sy'n golygu yr amcangyfrif ar hyn o bryd bod heintiau yn lleihau rhwng 1% ac 8% bob dydd.

Ffigur 1: Yr amcangyfrifon cyfredol ar gyfer cyfradd twf yng Nghymru – gyda chyfyngiadau hyder 90%, a'r model cyfun yn seiliedig ar bwysoliad cyfartal



Allwedd

—●— Cases —●— Deaths —●— Multiple —●— Survey —●— Combined


Y Gymhareb Atgynhyrchu

- Rhagwelir bod yr amcangyfrif diweddaraf o rif atgynhyrchiad R_t Cymru gan y Grŵp Cyngori Gwyddonol ar Argyfyngau (SAGE) rhwng 0.7 a 0.9. Oherwydd y nifer isel o achosion, mae'r amcangyfrif o R_t yn cael ei ddangos bellach fel amrediad heb amcangyfrif canolog.
- Mae R_t wedi bod yn is na 1 ers mis Mai sydd wedi arwain at ostyngiad yn nifer yr achosion a'r rhai sydd wedi gorfod cael eu derbyn i'r ysbyty. Os bydd R_t yn aros yn is na 1 yna bydd achosion yn parhau i ddisgyn. Wrth i nifer yr achosion ddisgyn, gall effaith digwyddiadau gor-wasgaru gynyddu lle bydd achosion o ledaenu'r feirws i sawl person mewn cyfnod byr o amser yn gallu arwain at amrywiadau yn nifer yr achosion. Rydym wedi gweld hyn gydag achosion a ganfuwyd yn cael eu llywio gan achosion a oedd yn canolbwyntio ar gymunedau neu weithleoedd penodol.

Yr Amcangyfrif Presennol o R_t

- Yr amcangyfrif gorau ar gyfer y DU yw bod R rhwng 0.8 a 0.9. Mae'r amcangyfrif hwn o R ar gyfer y DU yn gyfartaledd dros sefyllfaoedd epidemiolegol gwahanol iawn a dylid ei ystyried fel canllaw i'r duedd gyffredinol yn hytrach na disgrifiad o gyflwr epidemig y wlad gyfan.
- Amcangyfrif gorau SAGE o R yn Lloegr yw rhwng 0.8 a 1.0. Fodd bynnag, mae amcangyfrifon o R bob amser yn dibynnu ar hen ddata. Mae modelau sy'n defnyddio data profion piler 2, sef dangosydd arweiniol tebygol ar gyfer newidiadau heintio, yn awgrymu gwerthoedd R uwch yn Lloegr a sawl un o'i rhanbarthau na'r modelau hynny sy'n defnyddio dangosyddion hŷn, fel nifer y marwolaethau. Mae'r gyfran gynyddol o brofion piler 2 sydd wedi dychwelyd canlyniad positif yn ystod y pythefnos diwethaf hefyd yn cefnogi hyn. O ganlyniad, nid yw SAGE yn hyderus bod R yn is nag 1 yn Lloegr ar hyn o bryd.
- Mae amcangyfrifon o R a'r cyfraddau twf pob dydd yn llai dibynadwy ac yn llai defnyddiol wrth bennu cyflwr yr epidemig pan fo nifer yr achosion o'r clefyd yn isel neu lle ceir amrywiaeth sylweddol yn y boblogaeth, er enghraifft, achosion lleol. Mae'r ddau yn fesurau ar gyfartaledd ac ni fyddant yn tynnu sylw at achosion ar raddfa fach neu dros gyfnodau byr o amser.
- Er mwyn ystyried yr holl dystiolaeth a dulliau, bydd canlyniadau'r modelau'n cael eu cyfuno gan ddefnyddio pwysoliad cyfartal i roi amcangyfrif cyffredinol o R_T yng Nghymru. Dangosir hwn mewn du i'r dde o Ffigur 2 isod.
- Mae'r canlyniadau yn ddienw er mwyn osgoi rhoi blaenoriaeth i un model penodol dros un arall. Dangosir cyfyngau hyder (90%) hefyd. Yr asesiad o'r dystiolaeth hon gan SAGE yw bod R_T yn debygol o fod yn is na 1 yng Nghymru. Mae'r fethodoleg ar gyfer model Comix yn wahanol iawn, felly ni ellir ei chymharu â'r modelau eraill. Caiff ei blotio felly ar wahân i'r lleill, a'i ddangos mewn glas i'r ochr dde o Ffigur 2.

Ffigur 2. Amcangyfrifon cyfredol o Rt yng Nghymru – gyda chyfyngau hyder o 90%, ynghyd â'r model cyfunol yn seiliedig ar bwysoliadau cyfartal. Noder: Dangosir amcangyfrif comix ar wahân gan ei fod yn seiliedig ar wahanol ddulliau i'r amcangyfrifon eraill.



Allwedd

● Cases ● Deaths ● Multiple ● Survey ● Combined

Amser haneru


- Ar hyn o bryd ni ellir amcangyfrif amseroedd haneru mewn ffigurau dibynadwy oherwydd y nifer isel o dderbyniadau.

Glynu at y mesurau presennol a symudedd

- Dangosodd [canlyniadau arolwg diweddaraf Ipsos MORI](#) fod llawer o bobl yng Nghymru yn dal i ddilyn y canllawiau cadw pellter cymdeithasol ond bod gostyngiad pellach yn y rhai sydd ond yn gwneud tripiâu hanfodol.
- Mae canlyniadau diweddaraf yr Arolwg Ymgysylltu â'r Cyhoedd ar Iechyd a Lles yn ystod mesurau coronafeirws yn dangos bod 44% o bobl wedi dod i gysylltiad agos (o fewn 1 metr) gydag o leiaf 3 o bobl o'r tu allan i'w haelwyd/aelwyd estynedig yn y 7 diwrnod diwethaf. Nododd 39% bod rhywun o'r tu allan i'w cartref wedi bod i'w tŷ yn yr wythnos ddiwethaf a nododd 29% eu bod wedi mynd i un neu fwy o dai eraill yn yr wythnos ddiwethaf).

- Rhwng canol mis Ebrill a dechrau mis Mehefin mae teithio wedi cynyddu'n raddol. Am weddill Mehefin roedd y cynnydd yn llai ar y cyfan. Gwelodd hanner cyntaf mis Gorffennaf gynnydd mawr, ond mae'r wythnos diwethaf wedi gweld rhywfaint o sefydlogrwydd.
- Yng nghanol mis Ebrill roedd teithiau [defnyddwyr Facebook](#) yng Nghymru 50% yn is na'r llinell sylfaen, mae tua 10% erbyn hyn ac wedi gostwng ychydig yn yr wythnos ddiwethaf yn dilyn cynnydd mawr yn gynharach ym mis Gorffennaf. Nid yw 27% o ddefnyddwyr Facebook yng Nghymru yn teithio, i fyny ychydig o'r wythnos diwethaf, ond i lawr o dros 30% ar ddechrau mis Gorffennaf.
- [Mae data Apple](#) sy'n dangos ceisiadau am gyfarwyddiadau gyrru yng Nghymru wedi cynyddu'n sylweddol ers dechrau mis Gorffennaf a bellach maent ar eu uchaf ers i'r data ddechrau ym mis Ionawr. Mae [data symudedd Google](#) yn dangos ychydig iawn o newid yn y rhan fwyaf o gategoriâu yn yr wythnos ddiwethaf, ar ôl sawl wythnos o gynnydd mewn teithio.
- Ar ôl y cyfnod o gyfyngiadau symud roedd patrymau teithio yng Nghymru a Lloegr yn weddol debyg. Rhwng canol mis Mai a dechrau mis Mehefin, gwelwyd cynnydd mwy o ran teithio yn Lloegr na Chymru, gyda'r Alban yn dangos patrwm tebyg i Gymru. Yn ystod mis Gorffennaf cynyddodd teithio mwy yng Nghymru nag yn Lloegr, ond roeddent yn debyg i newidiadau mewn teithio yn yr Alban.
- Mae ffigur 4 isod yn dangos y newid o ran teithio yng Nghymru gan ddefnyddio data symudedd Google. Mae'r ffigurau yn seiliedig ar gyfartaledd yr awdurdodau lleol hynny sydd â data. Y gwerth canolrifol, ar gyfer y diwrnod cyfatebol o'r wythnos, yn ystod y cyfnod 5 wythnos o 3 Ionawr-6 Chwefror 2020, yw'r llinell sylfaen.

Ffigur 4: Newid mewn teithio yng Nghymru



Ymyriadau lleol

- Mae TAG yn cytuno â'r datganiad consensws SPI-B ar yr agweddau ymddygiadol i'w hystyried wrth weithredu ymyrraeth leol neu ranbarthol i reoli trosglwyddo'r feirws i'r gymuned.
- Ystyrir nad yw terminoleg 'cyfyngiadau lleol' yn ddefnyddiol gan ei fod yn rhoi'r argraff o gosbi a chyfyngu ar ryddid. Argymhellodd y grŵp y dylid mabwysiadu 'ardaloedd ymyrraeth' fel y derminoleg, gan ganolbwyntio ar ofal a chymorth.
- Mae'r rhwystrau tebygol i'r cyhoedd a'r gymuned dderbyn a glynu at 'ardaloedd ymyrraeth' yn cynnwys:
 - Y farn bod negeseuon yn gwrthddweud ei gilydd – h.y. bod y naratif cenedlaethol parhaus o lacio cyfyngiadau yn anghyson â'r negeseuon lleol angenrheidiol sy'n amlinellu mwy o gyfyngiadau mewn 'ardaloedd ymyrraeth'.
 - Diffyg trefniadau cefnogi clir (o'i gymharu â'r cyfnod clo cenedlaethol gwreiddiol ym mis Mawrth) h.y. dim trefniadau ffyrlo clir, cymorth i fusnesau bach, rhwydweithiau gwirfoddoli, cyngor ar warchod, ac ati.
 - Diffyg cymhelliant i gydymffurfio - mae canfyddiad bod y dull 'cyfyngiadau' wedi methu ag atal trosglwyddiad parhaus, felly pam y dylai pobl lynu at rywbeth y maent yn ei ystyried yn aflwyddiannus
 - Cwestiynau ar gyfreithlondeb ymyriadau lleol – ceir ymdeimlad eu bod yn fympwyol neu'n wahaniaethol, yn enwedig lle nad oes digon o dryloywder ynglŷn â'r wybodaeth a ddefnyddir i seilio penderfyniadau arnynt, a dim cymorth clir i fynd i'r afael â'r effeithiau anghymesur y gallai ymyriadau lleol o'r fath eu cael.
- Yn dilyn ystyried ymyriadau lleol mewn gwledydd eraill, yr awgrym yw bod sicrhau bod graddfa ofodol yr ymyriad yn gywir yn allweddol i lwyddiant – gall dulliau sy'n rhy gul eu ffocws neu wedi'u diffinio'n rhy eang deimlo'n anghymesur a thanseilio cyfreithlondeb a chydymffurfiaeth.
- Prif effeithiau peidio â chydymffurfio (ar wahân i newid cyfradd trosglwyddo'r feirws) yw'r potensial i erydu cydlyniant cymdeithasol (yn enwedig os credir bod y meysydd ymyrraeth ar hyd llinellau hiliol/ethnig) a dirywiad economaidd.
- Er mwyn lleihau'r risgiau hyn, dylai polisïau ar gyfer cyflwyno 'meysydd ymyrraeth' lleol/rhanbarthol ystyried:


- Cymesuredd y maes ymyrraeth
- Cyfleoedd ar gyfer cyd-gynhyrchu'r dull a negeseuon - efallai y bydd angen fframwaith cenedlaethol, ond gellid addasu hyn yn lleol
- Cyflwyno mesurau cymorth i liniaru effeithiau'r cyfyngiadau
- Cyfathrebu ystyriol – cymryd gofal i osgoi'r syniad o 'gosbi', cyd-fynd â'r negeseuon cenedlaethol ehangach, yn ddiwylliannol briodol, ac ati.

Ymchwil

- Mae 4717 o gleifion o Gymru wedi'u recriwtio i astudiaethau iechyd y cyhoedd COVID-19 brys ar hyn o bryd, sy'n gynydd o 204 yn y saith diwrnod diwethaf.

Dadansoddiad rhyngwladol

- Mae sawl gwlad yn dangos ail donnau amlwg iawn o achosion (neu barhad yr achosion cychwynnol a oedd wedi lleihau yn wreiddiol), hyd yn oed mewn gwledydd a oedd wedi cael rheolaeth dda iawn dros eu pandemig, fel Awstralia.
- Yn Melbourne, er bod yr achosion wedi bod o dan reolaeth am 6 wythnos, mae nifer yr achosion o heintiau, a marwolaethau, wedi codi'n sylweddol ac i'r fath raddau fel ei fod wedi codi'r achosion o haint ar gyfer Awstralia gyfan i lefel sy'n cymharu â'r don gyntaf neu'n uwch na hynny (gweler y graff isod).
- Mae nifer yr achosion o haint a marwolaethau amlwg wedi bod yn bennaf ymhlith y grŵp oedran 70-90 ond mae grwpiau oedran eraill wedi'u heffeithio i raddau llai. Mae Awstralia wedi cau'r ffiniau i dalaith Victoria a bydd y wladwriaeth yn gosod gofyniad i wisgo gorchudd wyneb ym mhob man cyhoeddus yn y dalaith gyfan o hanner nos ddydd Sul 2 Awst, yn ogystal â mesurau eraill (fel cyfyngiadau ar ymgynnull mewn priodasau ac angladdau, ac ati.).



- Mae'r achosion ail don yn Awstralia ac mewn gwledydd eraill yn dangos y risg barhaus o achosion ym mhob gwlad, hyd yn oed y rhai sydd wedi lleihau eu hachosion nes eu bod yn agos at sero. Hyd yn hyn, achosion lleol neu ranbarthol fu'r patrwm ond wrth i'r gaeaf agosáu ac i ymddygiad pobl newid, mae nifer yr achosion yn debygol o gynyddu. Ar ben hynny, mewn llawer o gymunedau yr effeithir arnynt, mae'n debygol bod lefel isel o haint yn parhau ac na fydd yn diflannu er gwaethaf y mesurau rheoli cynyddol, ac mae'r rhain yn debygol o fod yn ganolbwynt i achosion newydd wrth i'r cyfyngiadau gael eu llacio.
- Yr ofn yw, unwaith y caiff y feirws ei wasgaru'n gyfartal ar draws gwlad gyfan, y bydd yn amhosibl ei reoli heb osod rheolaethau sylweddol – mae India yn enghraifft o lle mae'r feirws wedi dianc o'r ardaloedd trefol poblog ac wedi ymledu i boblogaethau gwledig gan golli rheolaeth. Mae gwledydd eraill yn dangos symptomau tebyg.
- Yn Ewrop, mae'r pandemig dan reolaeth eithaf da o hyd heblaw am rai gwledydd yn y Balcanau (Serbia, Croatia, Bosnia a Herzegovina, Gogledd Macedonia, ac ati), Sbaen, Bwlgaria a Romania lle ceir ail donnau sylweddol. Mewn mannau eraill yn Ewrop, mae yna arwyddion sy'n peri pryder nad yw'r achosion wedi datblygu'n ail don eto, ond bod potensial ar gyfer hynny, er enghraifft Gwlad Belg (yn Antwerp mae cyrffw nos ar waith), Lwcsembwrg a Ffrainc.

Crynodeb gwyliadwriaeth ac epidemiolegol wythnosol COVID-19 gan lechyd Cyhoeddus Cymru

- Mae nifer y galwadau i wasanaeth 111 y GIG a Galw lechyd Cymru ar gyfer symptomau sy'n ymwneud â COVID-19 yn isel ac yn sefydlog
- Mae'r galwadau ambiwlans sydd o bosibl yn gysylltiedig â COVID yn sefydlog
- Mae profion positif wedi gostwng o bron 50% ym mis Ebrill i 1% yn y 7 diwrnod yn arwain at 29 Gorffennaf.
- Yn ystod wythnos 30 cynyddodd nifer yr achosion COVID-19 a gadarnhawyd mewn labordai yn genedlaethol (oherwydd cynnydd yn y gogledd ddwyrain yn bennaf)
- Mae'r nifer sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty ac i'r Uned Gofal Dwys yn parhau i syrthio yn gyffredinol


Dangosfwrdd Data'r GIG


- Diweddarwyd data lechyd Cyhoeddus Cymru ar 29/07/2020

- Diweddarwyd data ysbytai ar 29/07/2020

Unedau Gofal Dwys Lefel 3

- O blith y cyfanswm o 135 o gleifion mewn Unedau Gofal Dwys lefel 3 yng Nghymru (sydd i fyny o 126 yn yr adroddiad blaenorol):
 - mae 4 yn gleifion COVID (3 ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac 1 ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro);
 - mae 7 yn rhai yr amheuir sydd â COVID (4 ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, 2 ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ac 1 ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda)
- O blith y byrddau iechyd sydd ag Unedau Gofal Dwys lefel 3:
 - Mae 67% o welyau Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn cael eu defnyddio (gyda 1 claf a amheuir sydd â COVID)
 - Mae 59% o welyau Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn cael eu defnyddio (gyda 4 claf a amheuir sydd â COVID)
 - Mae llai na 50% o welyau Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn cael eu defnyddio.





Ffon fesur tebygolrwydd Pennaeth y Proffesiwn Asesu Gwybodaeth (PHIA)

- Os yw'n briodol, bydd y Gell Cyngor Technegol yn mynegi Tebygolrwydd neu hyder yn y cyngor a ddarperir gan ddefnyddio ffon fesur tebygolrwydd PHIA i sicrhau cysondeb ar draws yn y gwahanol gyngor a roddir.

